

DATGANIAD I'R WASG

“Rhowch Gyfle i Ddant y Llew!” – Annog pobl i Ailfeddwl am Flodau Gwyllt wrth i Plantlife Cymru Lansio Mai Di Dor

Elusen cadwraeth yn galw ar y DU i oedi gyda thorri glaswellt, rhoi nerth i'r blodau hynod a dod â natur yn nes at adref ar gyfer #MaiDiDor

Wrth i Plantlife Cymru roi cychwyn i'w ymgyrch **Mai Di Dor** flynyddol, mae data arolwg newydd ar agweddau Cymru tuag at blanhigion gardd yn datgelu bod llawer yn dal i ystyried blodau gwyllt fel chwyn, gan ddiystyru eu manteision i fywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

Dant y Llew yw'r blodyn gardd mwyaf amhoblogaidd o hyd, gyda bron i ddwy ran o dair o oedolion Cymru (63%) yn ei ystyried fel chwyn.

Ond roedden nhw'n gweld Llygaid y Dydd a Blodau Menyn mewn golau gwell, gyda 78% yn cydnabod Llygaid y Dydd a 73% yn cydnabod Blodau Menyn fel blodau gwyllt, nid chwyn. Hefyd, mae mwy na thraean yn credu bod y blodau yma'n gallu ychwanegu at atyniad gardd – sy'n arwydd addawol o gysylltiad cynyddol â byd natur.

Dywedodd **Nicola Hutchinson, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cadwraeth, Plantlife:**

“Mae'n amser ailfeddwl am flodau gwyllt – nid chwyn ydyn nhw, nhw yw arwyr tawel y byd naturiol. Yn allweddol i ecosystemau gerddi, mae blodau gwyllt yn cynnal pryfed peillio, trychfilod ac adar hyd yn oed, gan chwarae rhan bwysig yn y cadwyni bwyd ar gyfer bywyd gwyllt.

“Gyda mwy na 23 miliwn o erddi yn y DU, gall defnyddio Mai Di Dor fel man cychwyn ar gyfer llacio'r arferiad o dorri glaswellt drwy gydol yr haf sicrhau manteision di-ri i blanhigion, pryfed peillio, pobl a'r blaned.”

Mae tua chwarter pobl Cymru yn torri eu lawnt bob 2 i 3 wythnos yn ystod mis Mai, ar yr union adeg pryd mae llawer o flodau'n dechrau blodeuo. Mae **Mai Di Dor**, ymgyrch genedlaethol Plantlife, yn annog pobl mewn dinasoedd, trefi a chefn gwlad i roi'r gorau i dorri, gan ddechrau rhoi'r gorau iddi ym mis Mai a pharhau i'r haf, er mwyn cefnogi byd natur.

Mae'r ymgyrch, sydd yn ei seithfed blwyddyn bellach, yn dangos sut gall creu parthau gwahanol – tyweirch byr ochr yn ochr â borderi llysieuol lluosflwydd neu lawnt flodeuo! – ddarparu gwledd i bryfed peillio drwy gydol y gwanwyn a'r haf a dod â natur yn nes at adref.

Ychwanegodd **Sarah Shuttleworth, Cyngorydd Botaneg Arbenigol, Plantlife:**

“Os ydych chi’n cael anhawster delio â glaswellt tal, fe all cwtogi i dorri unwaith y mis hyd yn oed drwy gydol yr haf roi hwb i fioamrywiaeth lawnt. Os nad oes gennych chi ardd, gall iard neu falconi ddod yn hafan i blanhigion a phryfed peillio. Gall mwynhau llecynnau gwylltach – mewn rhan o’ch gardd hyd yn oed – wneud rhyfeddodau i gefnogi bywyd gwyllt.”

Mae'r ymgyrch hefyd yn hyrwyddo rheolaeth sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt mewn llecynnau cyhoeddus, fel glaswelltir ar hyd ymylon ffyrdd, ac mewn mannau agored a pharciau, gan wneud hynny mewn ffyrdd sydd o fudd i fioamrywiaeth a'r hinsawdd.

Dywedodd **Mark Schofield, Cyngorydd Ymylon Ffyrdd a Llecynnau Gwyrdd yn Plantlife:**

“Mae newid y ffordd rydyn ni’n rheoli glaswelltiroedd yn creu lle i fyd natur, ac yn parhau i ddiwallu anghenion cymunedol. Mae’n ailddychmygu ymylon ffyrdd fel coridorau bywyd gwyllt, gan gefnogi bioamrywiaeth a helpu i feithrin gwytnwch hinsawdd, ond hefyd cadw ymylon ffyrdd yn ddiogel.”

Mae Plantlife yn annog pobl i roi **nerth i’r blodau hynod** yr haf yma a gweld amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion yn eu gerddi. Gall rhain gynnwys y Gribell Felen, Pys-y-ceirw, Sgorpionllys y Maes, Meillion Gwyn, Clust-y-llygoden Gulddail, y Feddyges Las, Briallu Mair, tegeirianau gwyllt, Clafrllys y Maes a’r Bengaled. Y lawntiau sydd â’r nifer mwyaf o flodau gwyllt yw’r rhai sydd â chlytiau o laswellt o wahanol hyd.

Bydd dathlu glaswellt talach yn gwahodd byd cyfan o fywyd gwyllt i’ch gardd:

- Mae cocwnau’r Gwyfyn Bwrned yn ffurfio ar goesynnau blodeuol glaswelltau tal ac mae’r gwyfyn llachar a lliwgar sy’n hedfan yn ystod y dydd yn ymddangos
- Mae pryfed cop Gwe Meithrin yn creu gweoedd symudliw llawn gwlith yn llafnau glaswellt tal
- Mae Ceiliogod Rhedyn, y mae eu corws yn sŵn cwbl nodweddiadol gyda’r nos yn yr haf ym Mhrydain, angen glaswellt hirach i’w alw’n gartref
- Gall ffyngau cap cwyr fel y Cap Cwyr Duol, neu Het Gwrach fel mae’n cael ei alw hefyd, ffynnu ar lawntiau mwsoglyd heb eu gwrteithio.

Cymerwch ran ym **Mai Di Dor** ac ymuno â miloedd o gartrefi sy’n gadael i fyd natur gymryd yr awenau. Am gyngor, adnoddau a sut i gofrestru, ewch i:

www.plantlife.org.uk/nomowmay

#MaiDiDor #MaiDiDorAThuHwnt #Nerth Well I know that I’m done Blodau
#BlodauGwylltPrydain

Nodiadau i olygyddion:

Lluniau a fideo ar gael i'w defnyddio gan gydnabod y ffynhonnell:

[Images – Dropbox](#)

Cyswllt cyfryngau:

Am ragor o wybodaeth neu i drefnu cyfweiliad yn y Gymraeg cysylltwch ar:

01722 342730 (opsiwn 2)

press@plantlife.org.uk

jules.walkey@plantlife.org.uk

archie.thomas@plantlife.org.uk

Arolwg Ar-lein a gynhaliwyd gydag Opinion Matters ar 2,000 a mwy o oedolion yn y DU, gyda 100 a mwy o Gymru - Mawrth 2025.

DIWEDD

Am Plantlife:

Plantlife yw'r elusen fyd-eang sy'n gweithio i wella, gwarchod, adfer a dathlu'r planhigion gwyllt a'r ffyngau sy'n hanfodol i holl fywyd y ddaear. Gyda dwy o bob pum rhywogaeth o blanhigion mewn perygl o ddifodiant, mae colli bioamrywiaeth yn digwydd ar raddfa gyflymach nag erioed nawr, ac mae gwaith Plantlife yn fwy hanfodol nag erioed. Mae Plantlife yn hyrwyddo ac yn cyflymu gweithredu cadwraeth, gan weithio wrth galon rhwydwaith byd-eang o unigolion a sefydliadau i ysbrydoli a dylanwadu ar berchnogion a rheolwyr tir, cyrff cyhoeddus a phreifat, llywodraethau a chymunedau lleol. Wrth i amser ddechrau prnhau, bydd safle Plantlife fel y llais byd-eang ar gyfer planhigion gwyllt a ffyngau yn helpu i sicrhau newid parhaol a chadarnhaol i'n byd naturiol ni – er lles pawb.